

**Arolygiad o  
Bractis Deintyddol  
Cyffredinol [Â rhybudd]**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Abertawe Bro Morgannwg  
Practis Deintyddol Park  
Street**

4 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	CyflenwiSafonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	10
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	11
6.	Y Camau Nesaf.....	13

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd ar Bractis Deintyddol Park Street, 26 Park Street, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AX yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 4 Rhagfyr 2014

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*<sup>1</sup>.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

---

<sup>1</sup>Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae fframwaith y safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. [www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438](http://www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438)

- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Park Street yn darparu gwasanaethau i gleifion ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ardal gyfagos. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaeth deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd (perchnogion y practis), dau hylenydd deintyddol, un therapydd, tair nyrs a dau aelod o'r dderbynfa.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Triniaeth ar gyfer plant ac oedolion
- Triniaeth GIG a thriniaeth breifat
- Triniaeth frys
- Atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau a thriniaethau orthodontig.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Park Street yn bodloni'r safonau gofal a geir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth yr oeddent wedi'i derbyn.

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda â'r bwriad i fodloni'r safonau. Roedd gan y practis ystod o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel.

Rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â chadw cofnodion a monitro ansawdd pelydrau-x deintyddol. Rydym hefyd wedi gofyn i berchnogion y practis sicrhau bod y wybodaeth ynglŷn â'r broses gwyno sydd yn nhaflen wybodaeth y practis yn gywir.

Roedd amgylchedd y practis i'w weld ei fod yn cael ei gynnal yn dda yn fewnol ac yn allanol. Cwblhawyd asesiad risg amgylcheddol cyn ein harolygiad. Cafodd hyn ei drefnu gan berchnogion y practis a gwnaed argymhellion i sicrhau diogelwch parhaus y cleifion. Gwnaethom gymryd camau dilynol ar unwaith er mwyn cael cadarnhad bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion a oedd yn derbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth y gwnaethant ei dderbyn.**

**Sicrhaodd y practis fod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â'i wasanaethau. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn i berchnogion y practis sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael o ran y broses gwyno a nodir yn nhaflen y practis yn gywir.**

Roedd tîm y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar a gwelsom eu bod yn gwrtais i'r cleifion.

Roedd y practis wedi cynnal arolwg bodlonrwydd cleifion ym mis Hydref 2014. Gwnaethom edrych ar y canlyniadau a oedd yn nodi bod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Gwnaethom siarad â chwech o bobl a oedd yn mynychu ar gyfer triniaeth ar ddiwrnod ein harolygiad. Dywedodd pawb y buom yn siarad â nhw eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'u bod wedi derbyn croeso gan staff y practis.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus pe bai anawsterau gyda'u triniaeth, bod system ar waith i ymdrin â hyn ac i sicrhau y byddent yn cael apwyntiad arall yn brydlon.

Yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Gwnaeth y cleifion y buom yn siarad â nhw gadarnhau eu bod yn cael gwybod pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat yn ogystal â thriniaeth GIG ac roedd gweithdrefn ar waith er mwyn i gleifion nodi pryderon (cwynion). Roedd gwybodaeth i gleifion wedi'i harddangos yn glir yn yr ystafell aros. Roedd y weithdrefn yn bodloni'r trefniadau a oedd yn ymwneud â thriniaeth a gofal preifat. Fodd bynnag, nid oedd yn llwyr ystyried *Gweithio i Wella*, y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan GIG yng Nghymru. Golygai hyn nad oeddem yn sicr bod cleifion yn cael eu hysbysu o'u hawl i gyfeirio'u cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.



## ***Argymhelliad***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn nodi'n glir sut mae cleifion sy'n derbyn triniaeth GIG yn gallu mynegi eu pryderon dan drefniadau Gweithio i Wella.***

Roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth ar gyfer cleifion. Roedd hyn yn nodi manylion am y practis gan gynnwys y gwasanaethau a ddarparwyd, yr oriau agor a'r manylion cyswllt. Roedd angen diweddarau manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol er mwyn iddynt gynnwys y cyfeiriad a'r rhif ffôn cywir.

## ***Argymhelliad***

***Rhaid i berchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod taflen wybodaeth y practis yn cynnwys manylion cyswllt cywir y bwrdd iechyd lleol.***

## Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni safonau.

**Rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â chadw cofnodion a monitro ansawdd pelydrau-x deintyddol.**

Gwnaethom edrych ar sampl o saith cofnod claf. Roedd y sampl yn ystyried cofnodion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis.

Er bod cofnodion ysgrifenedig ar gael ar gyfer pob claf, byddai'n fuddiol i'r nodiadau gynnwys cofnod mwy manwl ynglŷn â'r rheswm bod y cleifion yn mynychu, y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd a'r cyngor a roddwyd gan y deintydd. Byddai cofnodion manwl yn helpu i sicrhau y gallai ymholiadau gan gleifion am eu triniaeth gael eu hateb yn llawn, hyd yn oed pe baent yn cael eu gwneud beth amser ar ôl i'w triniaeth gael ei gwblhau. Gwnaethom ddarparu adborth manwl ar ein canfyddiadau i'r deintyddion yn y practis fel eu bod yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu gwneud gwelliannau fel bo'r angen.

### ***Argymhelliad***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol yn gynhwysfawr ac yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau gorfodol ar gael ac yn gyfredol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a hyfforddiant staff. Nid oedd ansawdd y pelydrau-X yn cael eu graddio yn unol â'r drefn arferol. Rydym wedi argymhell bod y practis yn graddio pelydrau-X fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Dylai'r broses hon nodi unrhyw faterion cylchol o ran ansawdd y ddelwedd fel y gellir rhoi camau unioni ar waith.

### ***Argymhelliad***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i raddio ansawdd y pelydrau-X fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.***

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a chyffuriau ar gyfer argyfwng rhag ofn y byddai claf mewn argyfwng (cwympiadau) yn y practis. Gwelsom fod gwiriadau wedi cael eu cwblhau'n gyson gan staff i gadarnhau nad oedd y cyfarpar brys na'r cyffuriau wedi cael eu defnyddio a'u bod ar gael. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio

ag argyfyngau meddygol gan gynnwys sut i weinyddu adfywio cardio-pwlmonaidd.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio offerynnau a ddefnyddir yn y practis. Cynhaliwyd cofnodion gorfodol ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd i'w weld mewn cyflwr da. Er bod prosesau addas ar waith ar gyfer gwaith glanhau sterileiddio ymlaen llaw, sterileiddio a storio offer, nid oedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân. Gallai ystafell ar wahân, ynghyd â'r gweithdrefnau priodol leihau'r risg o groeshalogi offer ymhellach. Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ystyried darparu ystafell ddadheintio ar wahân fel rhan o'r gwaith o ddatblygu adeilad y practis.

Cynhaliwyd archwiliadau o ran rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)<sup>2</sup>. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ac eitemau untro ar gael i leihau'r risg o groes-heintio.

Roedd dogfennaeth contract ar waith ar gyfer gwaredu ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i fagiau lliw /cynwysyddion gwahanol i nodi'r dulliau gwaredu cywir. Cawsant eu storio'n ddiogel nes iddynt gael eu casglu. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell bod y practis hefyd yn gwahanu mowldiau deintyddol er mwyn sicrhau bod y rhain hefyd yn cael eu gwaredu'n briodol.

### ***Argymhelliad***

***Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i wahanu mowldiau wrth wastraff arall i sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n briodol.***

---

<sup>2</sup>Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a practisau deintyddol cymunedol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis ystod o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel. Ar y cyfan roeddem yn teimlo bod y practis yn cael ei redeg yn dda.**

Roedd gan y deintyddion, a oedd hefyd yn berchnogion ar y practis, gyfrifoldeb dros reoli'r practis. Roedd yn ymddangos bod aelodau'r practis yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau priodol.

Roedd gan y practis ystod o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol â'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael ei gyflenwi'n ddiogel. Roedd system ar waith er mwyn i staff lofnodi (ffurflen) ar ôl iddynt ddarllen a deall y rhain. Mae hyn yn arfer dda. Fodd bynnag, gwelsom enghraifft lle cafodd polisi ei ddiweddarau ond nid oedd staff wedi cadarnhau eu bod wedi'i weld. Gwnaethom hefyd weld nad oedd yr holl bolisiau'n cynnwys y dyddiad er mwyn nodi pa bryd y cawsant eu cwblhau na'u hadolygu. Gwnaethom dynnu sylw perchnogion y practis at hyn er mwyn iddynt gymryd gamau gweithredu priodol.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth yn eu rolau a'u bod yn gallu trafod unrhyw bryderon yn ymwneud â'r gwaith a allai fod ganddynt. Dywedodd staff hefyd wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn fisol a thrafodwyd pynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Dywedwyd wrthym fod staff yn siarad â'i gilydd bob dydd, gan hwyluso cyfathrebu effeithiol ymhlith y tîm.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant perthnasol i'w rôl ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. Felly, gallai staff a chleifion fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei arolygu yn rheolaidd a'i gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas at y diben.

## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Roedd amgylchedd y practis yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol. Cwblhawyd asesiad risg amgylcheddol cyn ein harolygiad. Cafodd hyn ei drefnu gan berchnogion y practis a gwnaed argymelliadau i sicrhau diogelwch parhaus y cleifion. Gwnaethom gymryd camau dilynol yn sgîl hyn ar unwaith i gael sicrwydd bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.**

**Roedd trefniadau priodol ar waith i warchod preifatrwydd y cleifion a oedd yn derbyn triniaeth.**

Roedd y practis ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ger canol y dref. Er bod parcio tu allan i'r practis wedi'i gyfyngu, roedd cyfleusterau parcio ar gael yng nghanol y dref gerllaw. Roedd y practis wedi'i labelu'n glir ac roedd hyn yn ei wneud yn hawdd i'w weld o'r heol. Roedd enwau a chymwysterau'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos ochr yn ochr â'r rhif ffôn y tu allan i oriau.

Roedd dwy feddygfa, un ar y llawr daear a'r llall ar lawr cyntaf yr adeilad. Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r rhain ac roeddent yn cynnwys offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd trefniadau addas ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros ar y llawr daear. Gwnaeth ein harsylwadau nodi bod maint yr ardal aros yn briodol o ystyried nifer y meddygfeydd a'r cleifion a oedd yn mynychu. Yn ystod taith o amgylch y practis, gwelsom fod yr ardaloedd hyn yn lân ac yn daclus.

Roedd cyfleusterau staff ar y trydydd llawr. Roedd y rhain yn darparu ardal i'r staff newid gan leihau'r risg o groes-heintio drwy eu gwisgoedd.

Gwnaethom arsylwi bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol. Roedd gweithdrefnau diogelwch ar waith i atal mynediad heb ei awdurdodi at yr adeilad. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir er mwyn i'r cleifion a'r staff eu gweld pe bai tân.

Roedd grisiau yn arwain at y brif fynedfa a oedd yn golygu bod mynediad at y practis yn anaddas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd gan y grisiau a oedd yn arwain at y fynedfa ganllaw i helpu cleifion a oedd ag anawsterau symudedd. Roedd gan y practis dŷ bach a ar y llawr daear. Roedd y rhain yn lân ac yn cynnwys offer golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Er bod gwybodaeth berthnasol am ystod y gwasanaethau ar gael yn hawdd i'r cleifion yn yr ystafell aros, nid oedd unrhyw ddeunydd a oedd yn hyrwyddo

iechyd y geg yn cael eu harddangos megis taflenni na phosteri. Dywedodd perchnogion y practis wrthym fod y wybodaeth hon ar gael yn y meddygfeydd ac y byddai'n cael ei darparu i gleifion yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym hefyd bod teledu ar fin cael ei osod yn yr ystafell aros i arddangos deunydd hyrwyddo perthnasol i gleifion.

Roedd asesiad risg amgylcheddol a drefnwyd gan berchnogion y practis yn cynnwys argymhellion i gynnal diogelwch y cleifion. Cymerwyd rhai camau gweithredu brys eisoeso ganlyniad i'r argymhellion a wnaed. Gwnaeth perchnogion y practis gadarnhau eu bod eisoes wedi gwneud trefniadau ar gyfer cwblhau'r gwaith pellach. Cawsom ein sicrhau nad oedd risg i'r cleifion yn y cyfamser, nes y byddai'r gwaith yn gallu cael ei gwblhau. Rydym wedi cymryd camau dilynol ac yn fodlon bod y gwaith gofynnol wedi'i gwblhau.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran meysydd profiad cleifion a chyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Park Street yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

### Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwelliannau

Practis: Practis Deintyddol Park Street

Dyddiad yr Arolygiad: 4 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Profiad y Claf</b>				
7	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y gweithdrefnau cwyno yn nodi'n glir sut mae cleifion sy'n derbyn triniaeth GIG yn gallu mynegi eu pryderon o dan drefniadau <i>Gweithio i Wella</i> .	Mae poster Gweithio i Wella bellach yn yr ystafell aros ac mae manylion cyswllt yr Ombwdsmon ar gael ar y weithdrefn gwyno.	C. Meek	Ar waith
7	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod taflen wybodaeth y practis yn cynnwys manylion cyswllt cywir y bwrdd iechyd lleol.	Manylion Awdurdod Iechyd Lleol cywir ar daflen y practis	P. Welch	Ar waith



Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>				
8	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol yn gynhwysfawr ac yn cael eu cadw yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	Gweithredu'r argymhellion ar unwaith a chynnal archwiliad bob chwarter.	C.Meek/P.Welch	Ar unwaith ac yn barhaus
8	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau i raddio ansawdd pob pelydr-X fel mater o drefn ac fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.	Pelydrau X i gael eu graddio fel mater o drefn	C.Meek/P.Welch	Ar unwaith ac yn barhaus
9	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas i wahanu mowldiau deintyddol wrth wastraff arall i sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n gywir.	Trefnu bod cynhwysydd newydd ar gael er mwyn cludo mowldiau.	C.Meek/P.Welch	Trefnwyd cyfarfod Cannon
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
	-			
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
	-			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch): Catherine Meek**

**Teitl: Dr**

**Llofnod: Anfonwyd copi papur**

**Dyddiad: 14/1/15**